# Datganiad Canlyniadau Graddau Prifysgol Wrecsam

## Hydref 2025

### 1 Proffil Dosbarthiad Gradd Sefydliadol

1.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn parhau i fod ar frig y Times and Sunday Times Good University Guide am fod y Brifysgol fwyaf cynhwysol yn gymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rancio safle a gyhoeddwyd fwyaf diweddar yn rhoi'r Brifysgol yn y safleoedd canlynol:

- Y gyntaf yng Nghymru a Lloegr am Gynhwysiant Cymdeithasol.
- Y gyntaf yng Nghymru a Lloegr o ran y gyfran o fyfyrwyr sydd ag anabledd wedi'i ddatgan.
- Y degfed yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y gyfran uchaf o fyfyrwyr aeddfed.
- Y bedwaredd yng Nghymru a Lloegr ar gyfer recriwtio yn Ysgolion y Wladwriaeth.
- Y seithfed yng Nghymru a Lloegr ar gyfer myfyrwyr o'r genhedlaeth gyntaf.

1.2 Rydym yn sefydliad bach o safbwynt nifer y myfyrwyr ar gynlluniau gradd ac yn aml mae'r setiau data sy'n gysylltiedig gyda maint y carfanau yn rhy fach i'w cyhoeddi. Fel sefydliad sydd â chenhadaeth i ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch, yn aml does gan nifer o'n myfyrwyr ddim cymwysterau mynediad ffurfiol, felly mae'r Brifysgol yn ystyried profiad perthnasol drwy brosesau trylwyr er mwyn gwerthuso a pharu dysgu drwy brofiad yn erbyn deilliannau dysgu'r cynllun gradd.


1.3 Mae data canlyniadau gradd yn parhau i fod yn cael ei ystyried drwy'r Monitro a Gwelliant Parhaus (CME) (y broses Monitro ac Adolygu Blynyddol yn flaenorol). Cynhyrchir adroddiad diwedd blwyddyn i gyd-fynd gyda chynllun gweithredu byw sy'n cael ei ddiweddaru wrth i ddata ddod ar gael, a bydd camau gweithredu'n cael eu creu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ardaloedd sydd angen eu gwella gafodd eu hadnabod o fewn y data. Caiff y gwaith yma ei wneud ar lefel rhaglen a'i godi i lefel pwnc ac yna Cyfadran drwy strwythur llywodraethu'r brifysgol.


1.4 Mae'r Brifysgol yn adolygu eu dull adrodd ac ystyriaeth i setiau data allweddol yn barhaus, gyda chanlyniadau graddau yn cael eu cynnwys o fewn y gwaith hwn. Mae amserlen cynllunio pwyllgor yn ei le er mwyn sicrhau bod yr holl setiau data allweddol yn cael eu hystyried drwy'r strwythur llywodraethu yn flynyddol er mwyn bod yn sail i arferion dysgu ac addysgu yn y dyfodol a'u gwella.

1.5 Ar gyfer Canlyniadau Graddau mae'r tabl isod yn dangos y dosbarthiadau ar gyfer graddau is-raddedig cyntaf sy'n cael eu dysgu ar gampws Wrecsam a champws Llaneurgain yn ogystal â

thrwy ddysgu o bell. Mae cyfran y graddau dosbarth 1af a ddyfarnwyd yn 2023/24 wedi gostwng ychydig o'r flwyddyn flaenorol, ac yn sefyll ar 37.4%. Mae cyfran y dyfarniadau 2:1 hefyd wedi gostwng fymryn i 30.9%.

1.6 Mewn cymhariaeth gyda'r sector yn y DU yn ogystal â sefydliadau yng Nghymru, mae'r siart isod yn dangos bod cyfran is o raddedigion graddau cyntaf Prifysgol Wrecsam yn cyflawni dosbarth 1af neu ddosbarth 2:1.




## 2 Arferion Asesu a Marcio

2.1 Mae arferion asesu a marcio trylwyr yn eu lle ym Mhrifysgol Wrecsam. Mae'r Brifysgol yn gweithredu byrddau asesu dwy haen, sef Byrddau Modiwlau, wedi'u dilyn gan Fyrddau Dyfarnu/Cynnydd. Bydd arholwyr allanol ochr yn ochr â staff o Gyfarwyddiaeth Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr yn mynychu Byrddau er mwyn sicrhau bod y Rheoliadau Academaidd yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ac yn deg ar draws y gwahanol feysydd pwnc a dyfarniadau a bod arferion asesu yn unol gyda safonau academaidd ar draws y sector.

2.2 Rhoddir ystyriaeth i ddulliau asesu drwy'r prosesau dilysu/ailddilysu, sy'n cynnwys sy'n cynnwys asesiadau gan gyfoedion ac yn allanol, drwy aseswyr allanol, adborth ar strategaethau a dulliau asesu. Mae'r Brifysgol hefyd yn defnyddio arholwyr allanol wrth osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academaidd pob darpariaeth, gan gynnwys partneriaid, ac yn cynnal cofrestr arholwr allanol.

2.3 Cafodd Rheoliadau Academaidd y Brifysgol eu hadolygu'n ddiweddar a'u symleiddio ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24. Fel rhan o'r ymarfer hwn cafodd gwybodaeth ei diddymu a'i haddasu er mwyn creu Polisi Asesu ar ei ben ei hun sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau Academaidd ac yn eu cefnogi. Mae'r Polisi Asesu yn rhoi manylion am y lefel samplu y dylid ymgymryd ag ef mewn perthynas â thasgau asesu a chymedroli. Mae holl reoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan gymryd i ystyriaeth adborth ac arfer gorau o fewn y sector.

2.4 Mae arholwyr allanol yn adrodd yn flynyddol ar ymddygiad byrddau asesu, briffiau asesu a phapurau arholi, aliniad y rhaglenni maent yn eu hasesu i bwyntiau cyfeirio allanol a lle mae'n bosib byddant yn mynychu byrddau asesu. Mae trosolwg blynyddol o adroddiadau arholwyr allanol am y flwyddyn yn cael eu dal o fewn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol a ystyrir drwy strwythur llywodraethu academaidd y Brifysgol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Mae'r adroddiad yn cynnwys camau gweithredu sefydliadol sbesiffig i broses perthnasol sydd angen mynd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol. Bydd pob adroddiad gan arholwr allanol yn cael ei ystyried gan Dîm y Rhaglen gydag ymateb yn cael ei baratoi a'i anfon at yr arholwr allanol yn rhoi gwybod iddynt sut y bydd eu hadborth yn cael ei ystyried. Gwahoddir pob arholwr allanol i sesiwn gynefino pan gânt eu penodi.

2.5 Mae Tîm Datblygiad Academaidd y Brifysgol (ADT) yn allweddol i strategaeth welliant y Brifysgol. Mae sawl edefyn yn eistedd o fewn model ymyriad ADT o fewn y Brifysgol sydd ag ystod amrywiol o staff Prifysgol sy'n cyfrannu at y gwaith. Un edefyn o'r prosiect yw asesiad ac adborth. Drwy gydol yr ADT mae'r Brifysgol wedi cynhyrchu canllawiau cynhwysfawr i staff a myfyrwyr ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol ac maent wedi rhoi cyflwyniad ar y pwnc hwn mewn cynhadledd wedi'i hariannu gan QAA drwy'r symposiwm Rhwydwaith Uniondeb ac Asesu Cymru.

2.6 Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun polisi sy'n cael ei weithredu mewn tair wythnos ar gyfer adborth myfyrwyr ar aseiniadau crynodol, ac yng nghanlyniadau NSS 2025 gosodwyd Prifysgol Wrecsam yn 3ydd yng Nghymru ar gyfer Asesu ac Adborth.

## 3 Llywodraethu Academaidd

3.1 Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am gymeriad addysgol, cenhadaeth a strategaeth y Brifysgol. Mae rheolaeth o ddydd i ddydd yn gorwedd gyda'r Is-ganghellor, wedi'i gefnogi gan Dîm Gweithredol yr Is-ganghellor (VCET) a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT).

3.2 Mar gan y Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau gyfrifoldeb dros oruchwylio ansawdd a safonau academaidd. Yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 cwblhaodd y Brifysgol ei

Adolygiad Gwella Ansawdd yn llwyddiannus oed dyn cadarnhau bod y Brifysgol yn bodloni gofynion Rhan 1 Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol a'r gofynion rheoliadol llinell sylfaen perthnasol Fframwaith Sicrhau Ansawdd Cymru.

3.3 Nodwyd y clodydd canlynol gan y panel:

- Ymagwedd strategol y Brifysgol at ddiwallu anghenion y rhanbarth, gan gynnwys y pwyslais ar gynhwysiant ac ehangu mynediad, a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, diwylliant a'r economi.
- Y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y Brifysgol i integreiddio arferion cynhwysol sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar draws cefnogaeth academaidd, fugeiliol a dysgu, er mwyn galluogi pob myfyriwr i gyflawni ei botensial.

3.4 Mae dull y Brifysgol o reoli ansawdd wedi'i strwythuro o amgylch dwy brif elfen: fframwaith Rheoliadau Academaidd (a'u gweithrediad) a'r Bwrdd Academaidd a'i bwyllgorau cysylltiedig. Mae'r dull o weithredu'n un o gydweithredu gyda myfyrwyr. Mae Rheoliadau Academaidd yn cael eu goruchwylio gan Fwrdd Academaidd; maent yn cwmpasu ystod eang o feysydd ac yn darparu fframwaith reoleiddio ar gyfer yr holl ddarpariaeth academaidd a'r dyfarniadau sy'n cael eu cynnig gan y Brifysgol.

3.5 Mae'r Brifysgol yn datblygu ei fframwaith ansawdd yn barhaus er mwyn sicrhau bod prosesau safonau academaidd a sicrwydd ansawdd yn drylwyr. Bob blwyddyn mae'r Rheoliadau Academaidd a'r polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl y galw er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn hyrwyddo arfer gorau.

3.6 Mae proses **Archwiliad Sicrwydd Ansawdd Academaidd (AQAA)** wedi'i sefydlu i gyd-fynd gyda'r Fframwaith Ansawdd ac adolygiad blynyddol o'i gynnwys, sy'n archwilio prosesau ac arferion mewnol. Mae pynciau'r archwiliad yn eang a byddant yn wahanol bob blwyddyn. Y ffocws yn 2023/24 a 2024/25 oedd:

- Y **prosiect Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau** lle mae'r holl reoliadau, polisïau a gweithdrefnau'n mynd drwy broses ymgynghori er mwyn eu hadnewyddu a'u symleiddio. Mae'r newidiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y polisïau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u hadolygu a'u cyhoeddi ar [dudalen gwe Rheoliadau, Polisïau, a Gweithdrefnau'r Brifysgol](). Mae myfyrwyr yn ymwneud â phob maes o'r prosiect hwn ac mae pwyntiau cyfeirio allanol yn cael eu hystyried a'u mewnosod lle bo hynny'n briodol.
- Mae'r **prosiect Adolygiad Mewnol Partneriaethau Academaidd** yn ceisio cynnal gwiriad/adolygiad cydymffurfio eang o'r holl bartneriaethau academaidd gweithredol er mwyn asesu effeithiolrwydd y bartneriaeth, adnabod meysydd o arfer gorau a phryder.

3.7 Mae ymgysylltu a meincnodi allanol yn allweddol i lwyddiant dull y Brifysgol o roi llywodraethu academaidd ar waith. Mae cyfleoedd i ymgysylltu'n allanol yn helpu i fod yn sail i welliannau i'r Fframwaith Ansawdd er mwyn sicrhau bod ein dull o weithredu'n gyfredol, wedi'i symleiddio ac yn berthnasol. Mae meincnodi allanol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein canlyniadau graddau yn rhai y gellir eu cymharu ar draws y sector. Mae ein prosesau

dilysu/ailddilysu wedi bod drwy broses ymgynghori eang fel rhan o'r edefyn prosiect AQAA, a rhan allweddol o hyn oedd sicrhau bod cynhwysiant, dadansoddiad ac aliniad meincnodi allanol wedi'i fewnosod drwy gydol y broses a amlinellir o fewn y polisïau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u hadolygu, gan gynnwys:

- Cod Ansawdd y DU.
- Datganiadau Nodweddion QAA.
- Datganiadau Meincnodi Pwnc QAA.
- Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch.

3.8 Mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol a gynhyrchir gan y Tîm Ansawdd a Rheoliadau yn asesu'r newidiadau sydd wedi eu gwneud i bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn cyflwyno'r mapio meincnodi allanol sydd wedi bod yn sail i'r newid.

## 4 Ein Halgorithm dosbarthiad (sut rydym ni'n penderfynu dosbarth gradd y myfyriwr)

4.1 Ar gyfer rhaglenni Is-raddedig, bydd y marc gradd cyffredinol yn cael ei gyfrifo yn y dull canlynol:

- Dim ond modiwlau sy'n cael eu hasesu'n rhifyddol fydd yn cyfrif tuag at y marc cyffredinol.
- Bydd marciau'n cael eu talgrynnu i'r rhif cyflawn agosaf.
- Byddwn yn adolygu'r marc proffil a gafwyd ar draws y modiwlau ar gyfer Lefelau 5 a 6 drwy ddefnyddio Dull A a Dull B.
- Dull A: perfformiad cyson ar draws Lefelau 5 a 6.
- Y marc cyffredinol a gafwyd ar draws y modiwlau (sy'n cynnwys 120 o gredydau) a gwblhawyd ar gyfer Lefel 5.
- Y marc cyffredinol a gafwyd ar draws y modiwlau (sy'n cynnwys 120 o gredydau) a gwblhawyd ar gyfer Lefel 6.
- Cyfrifo marc terfynol drwy greu cyfartaledd cyffredinol o'r ddau farc yma wedi'u pwysoli ar y gyfradd o 30 (lefel 5): 80 (lefel 6).
- Dull B: perfformiad cyson yn Lefel 6.
- Y marc cyffredinol a gafwyd ar draws y modiwlau (sy'n cynnwys 120 o gredydau) a gwblhawyd ar gyfer Lefel 6.
- Byddwn wedyn yn adolygu canlyniad Dull A a Dull B ac yn defnyddio'r marc uchaf o'r ddau er mwyn i ddosbarth y radd adlewyrchu'r perfformiad cryfaf.
- Bydd Manylebau Rhaglen yn nodi os oes unrhyw wahaniaethau ar gyfer sut y cyfrifir marc y radd ar gyfer rhaglen.

4.2 Ar gyfer rhaglenni Ôl-raddedig, bydd y marc terfynol yn cael ei gyfrifo drwy gymryd y marc cyfartalog a gafwyd ar draws y modiwlau. Dim ond modiwlau sy'n cael eu hasesu'n rhifyddol fydd yn cyfrif tuag at y marc cyffredinol.

## 5 Arferion Addysgu ac Adnoddau Dysgu

5.1 Mae'r Fframwaith Addysgu Academaidd (ALF) yn fframwaith addysgu a dysgu sydd wedi'i fewnosod ym Mhrifysgol Wrecsam, ei ddatblygu a'i lansio ym mis Gorffennaf 2020, gan y rhwydwaith Tîm Datblygiad Academaidd (ADT) er mwyn cefnogi dysgu cyfunol yn ystod y pandemig drwy ddysgu cydamserol ac anghydamserol. Mae'r hyrwyddwyr ADT ac ALF yn darparu arweiniad, gweithdai a phwyntiau cyswllt er mwyn cefnogi a mewnosod yr ALF drwy'r amgylcheddau digidol ac ar y campws.

5.2 Drwy'r ADT mae'r Brifysgol yn parhau i archwilio ffyrdd i fewnosod yr ALF ymhellach, gan adolygu traweffaith yn flynyddol ac adnabod cyfleoedd yn fewnol ac yn allanol ar gyfer rhannu arfer gorau a hyrwyddo dulliau newydd.

## 6 Adnabod arfer a chamau gweithredu da

6.1 Mae'r Brifysgol wedi adnabod nifer o feysydd o arfer da ar gyfer yr Adolygiad Gwella Ansawdd, a oeddent eu hunain hefyd wedi adnabod meysydd penodol o arfer da gan gynnwys:

- Datblygiad Academaidd.
- Partneriaethau Academaidd.
- Monitro ac Adolygu.
- Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg.
- Gwaith sy'n arwain y sector ar fod yn Ystyriol o Drawma.
- Gwaith sy'n arwain y sector ar Genhadaeth Ddinesig y brifysgol.

6.2 Drwy ein dull strwythuredig o fewn ein Fframwaith Gwella Ansawdd wedi'i gefnogi gan ein Tîm Datblygu academaidd arobryn, rydym yn parhau i rannu'r arfer da hwn ar draws y sefydliad yn ogystal â cheisio sicrhau gwelliannau pellach.

*Mae'r datganiad hwn wedi'i gynhyrchu mewn cydweithrediad gyda rhanddeiliaid allweddol a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd a Bwrdd y Llywodraethwyr.*